

**Dyfarnu  
cymwysterau  
galwedigaethol  
yn haf 2020**

**Trosolwg**



**Awst 2020**

## Cynnwys

Cyflwyniad	2
Cefndir	3
Ein hymagwedd	4
Y fframwaith rheoleiddio arbennig	5-6
Cyfathrebu'r ymagwedd	7
Sut wnaethon ni gyfathrebu	8
Monitro haf 2020	9
Canlyniadau	9-10
Apeliadau	11
Beth nesaf - ymagwedd at 2020/2021	11

## Cyflwyniad

Mae pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi cael effaith sylweddol ar gymwysterau galwedigaethol yn haf 2020. Arweiniodd at gau ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant a chanslo ystod o arholiadau ac asesiadau mewn cymwysterau galwedigaethol.

Mae'r dirwedd cymwysterau galwedigaethol yn y DU yn gymhleth, gyda nifer fawr o gymwysterau ar gael ar draws ystod eang o sectorau galwedigaethol. Mae'r rhan fwyaf o'r cymwysterau galwedigaethol sydd ar gael yng Nghymru hefyd ar gael yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae cymwysterau galwedigaethol yn cyflawni ystod o ddibenion, sy'n cynnwys symud ymlaen i ddysgu pellach mewn addysg bellach neu addysg uwch, dangos cymhwysedd galwedigaethol neu fel trwydded i fynd i swyddi penodol. Fe'u cymerir gan ddysgwyr ar draws ystod o leoliadau, gan gynnwys ysgolion, colegau a darparwyr dysgu yn y gwaith, naill ai fel cymwysterau annibynnol neu fel rhan o raglenni prentisiaeth. Mae cymwysterau galwedigaethol ar gael ar wahanol lefelau a meintiau. Ar hyn o bryd, mae dros 22,000 o gymwysterau galwedigaethol wedi'u rheoleiddio gan Cymwysterau Cymru, a ddyfernir gan 97 o gyrff dyfarnu. Cyhoeddwyd dros 379,000 o dystysgrifau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru yn 2019.

O ystyried y ffactorau hyn, roedd yn hanfodol ein bod yn cymryd ymagwedd yn haf 2020 a oedd yn cydnabod amrywiaeth y cymwysterau galwedigaethol, yn darparu rhywfaint o hyblygrwydd i gyrff dyfarnu i weithredu mesurau lliniaru priodol, ac yn cyd-fynd â'r ymagweddau a gymerir yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Ceisiodd ein hymagwedd leihau effaith y pandemig ar ddysgwyr a oedd i fod i gwblhau eu cymwysterau yn haf 2020 a, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, galluogi dysgwyr i symud ymlaen i gam nesaf eu dysgu neu eu gyrfa.

## Cefndir

Ar 18 Mawrth 2020, er mwyn helpu i frwydro yn erbyn lledaeniad y coronafeirws (COVID-19), cyhoeddodd Gweinidog Addysg Cymru fod ysgolion yn cau a bod cyfres arholiadau haf 2020 yn cael ei chanslo. Ar 23 Mawrth 2020, cyflwynwyd cloi cenedlaethol a oedd yn golygu na allai unrhyw addysgu nac asesu wyneb yn wyneb pellach ddigwydd gydag unrhyw ddarparwr addysg neu hyfforddiant.

Rydym yn gwybod bod llawer o ddarparwyr dysgu wedi parhau i ddarparu dysgu ar-lein yn ystod y cyfnod cloi. Fodd bynnag, roedd yr effaith ar asesu cymwysterau galwedigaethol yn sylweddol. Mae llawer o gymwysterau yn gofyn am asesu sgiliau ymarferol neu i asesiadau gael eu cwblhau mewn amgylchedd rheoledig. Ni allai'r asesiadau hyn barhau pan oedd canolfannau ar gau.

Ar 24 Ebrill 2020, cyhoeddodd Gweinidog Addysg Cymru Gyfarwyddyd i Cymwysterau Cymru. Roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Cymwysterau Cymru ystyried:

- Polisi Llywodraeth Cymru sef, cyn belled ag y bo modd, yr oedd dysgwyr a oedd i fod i gwblhau asesiadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol rhwng 20 Mawrth a 31 Gorffennaf 2020 i gael canlyniadau wedi'u cyfrifo ar gyfer y cymwysterau hyn.
- Polisi Llywodraeth Cymru sef, y dylai dysgwyr oedd yn astudio cymwysterau galwedigaethol gael eu trin yn deg, gan dderbyn canlyniadau sy'n adlewyrchu'r gwaith y maent wedi'i wneud a'u cyrhaeddiad cronnus ar eu cymwysterau.
- Polisi Llywodraeth Cymru sef, cyn belled ag y bo modd, na ddylai dysgwyr sy'n astudio cymwysterau galwedigaethol fod dan anfantais o gymharu â'u cyfoedion sy'n astudio Safon Uwch a TGAU, o ran gallu symud ymlaen i'r cam nesaf o ddysgu a/neu gyflogaeth. Cydnabyddir na fydd polisi "un maint i bawb" yn briodol ac efallai y bydd angen teilwra ymagweddau ar gyfer cymwysterau unigol.
- Polisi Llywodraeth Cymru sef, lle nad yw'n briodol pennu canlyniad wedi'i gyfrifo oherwydd bod cymhwyster yn dynodi cymhwysedd galwedigaethol gan gynnwys "trwydded i ymarfer", y bydd angen oedi fel y gall y dysgwr gwblhau ei ddysgu a'i asesu. Yn yr achosion hyn, dylai iechyd a diogelwch fod yr ystyriaeth bwysicaf.
- Polisi Llywodraeth Cymru bod ymagwedd deg a chadarn at gyhoeddi canlyniadau i ddysgwyr sy'n astudio cymwysterau galwedigaethol yn cael ei mabwysiadu, sy'n cynnwys pennu'r ymagwedd y mae'n rhaid i gyrff a chanolfannau dyfarnu ei dilyn wrth gyrraedd dyfarniadau ar gyrhaeddiad dysgwyr a sicrhau bod llwybr i droi ato ar gael i'r dysgwyr hynny nad ydyn nhw'n credu bod y broses wedi ei dilyn yn gywir wrth gyhoeddi eu canlyniadau.

## Ein hymagwedd

Mae'r rhan fwyaf o'r cymwysterau galwedigaethol yr ydym yn eu rheoleiddio yn cael eu rheoleiddio hefyd gan Ofqual (Lloegr) a CCEA Regulation (Gogledd Iwerddon). Dyfernir y cymwysterau hyn gan yr un cyrff dyfarnu, ac maent yn dilyn yr un trefniadau asesu ar draws awdurdodaethau. Gweithiodd y tri rheoleiddiwr ar y cyd trwy gydol haf 2020 i sicrhau bod ymagwedd gyson yn cael ei defnyddio ledled y DU. Roedd hyn yn bwysig am ddau reswm allweddol.

Yn gyntaf, roeddem am sicrhau bod yr ymagwedd a gymerwyd yng Nghymru yn gyson â'r ymagwedd a gymerwyd ar gyfer yr un cymhwyster mewn rhannau eraill o'r DU. Roeddem am sicrhau nad oedd dysgwyr yng Nghymru dan anfantais nac yn manteisio o'u cymharu â'u cyfoedion mewn manau eraill.

Yn ail, fel rheoleiddiwr, mae'n ddyletswydd arnom ystyried y baich rydyn ni'n ei roi ar y cyrff dyfarnu rydyn ni'n eu rheoleiddio. Mae Cymwysterau Cymru, CCEA Regulation ac Ofqual wedi sefydlu ffyrdd o weithio sy'n ceisio lleihau effaith ein gweithgareddau rheoleiddio ar gyrff dyfarnu a chydweithio lle mai dyna'r peth iawn i'w wneud. O ystyried graddfa a chymhlethdod y materion a wynebwyd gennym yn haf 2020, roedd yn amlwg y dylem weithio gyda'n gilydd a chymryd ymagwedd gyffredin lle bynnag y bo modd. Byddai gosod gwahanol ofynion ar gyrff dyfarnu wedi cynyddu'r risg yn sylweddol na fyddai'r cyrff dyfarnu hynny'n gallu bodloni gofynion y tri rheoleiddiwr. Yn ogystal, roedd ar lawer o'r addasiadau i asesu angen mewnbyn a chytundeb gan gyrff yn y sector perthnasol, sydd mewn sawl achos yn gweithredu ledled y DU.

Mae yna nifer o gymwysterau galwedigaethol sy'n cael eu rheoleiddio gan Cymwysterau Cymru yn unig, gan gynnwys y gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, a chymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru. Fe wnaethom gymhwyso'r un ymagweddau at y cymwysterau hyn.

## Y fframwaith rheoleiddio arbennig

O ystyried cymhlethdod ac amrywiaeth y dirwedd cymwysterau galwedigaethol, nid oedd yn bosibl gweithredu dull "un maint i bawb" i fynd i'r afael â'r materion a wynebwyd gennym yn haf 2020. Felly, gwnaethom roi ymagwedd rheoleiddio llai rhagnodol ar waith, a oedd yn seiliedig ar fframwaith rheoleiddio arbennig hyblyg, wedi'i seilio ar egwyddorion.

Cynhaliodd Ofqual ymgynghoriad ar fframwaith rheoleiddio eithriadol VTQ arfaethedig ar gyfer haf 2020. Cyhoeddwyd y [fframwaith](#) terfynol, y [canllawiau](#) a'r [penderfyniadau ymgynghori](#) gan Ofqual ar 22 Mai 2020. Ni wnaethom ymgynghori ar wahân, o ystyried ein bod yn bwriadu cysoni ymagweddau â Lloegr a Gogledd Iwerddon a byddai fframwaith Ofqual yn berthnasol i'r mwyafrif o gymwysterau galwedigaethol a gymerir yng Nghymru, gan eu bod hefyd yn cael eu rheoleiddio gan Ofqual. Gwnaethom annog canolfannau yng Nghymru i ymateb i ymgynghoriadau Ofqual. Cyhoeddwyd ein [Fframwaith Rheoleiddio Arbennig ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol](#) a chanllawiau cysylltiedig ar 3 Mehefin 2020.

Roedd y fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu roi eu cymwysterau mewn tri chategori ar sail pwrpas y cymhwyster:

Categori 1 - cymwysterau a ddefnyddir ar gyfer symud ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch

Categori 2 - cymwysterau sy'n cyflawni diben cymysg

Categori 3 - cymwysterau sy'n arwydd o gymhwysedd galwedigaethol

Ar ôl categoreiddio eu cymwysterau, yna roedd yn ofynnol i gyrff dyfarnu nodi'r camau lliniaru priodol i'w rhoi ar waith - cyhoeddi canlyniadau wedi'u cyfrifo; addasu'r asesiadau; neu oedi asesiad.

Cyfrifo canlyniadau oedd y man cychwyn ar gyfer cymwysterau a ddefnyddir ar gyfer symud ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch (Categori 1). Bydd mwyafrif y dysgwyr sy'n cymryd cymwysterau yn y categori hwn yn derbyn canlyniad wedi'i gyfrifo. Roedd yr ymagwedd a gymerwyd yn debyg i'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru. Fodd bynnag, o ystyried yr amrywiaeth o gymwysterau sydd ar gael, nid oes un model safoni ystadegol trosfwaol sy'n cael ei ddefnyddio fel sy'n wir am gymwysterau cyffredinol. Datblygodd gyrff dyfarnu ymagweddau at gyhoeddi graddau wedi'u cyfrifo a oedd yn gwneud y defnydd gorau o'r dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer pob cymhwyster. Mae'r ymagwedd hon yn caniatáu i gyrff dyfarnu flaenoriaethu'r dystiolaeth sydd ar gael iddynt ar sail cryfder y dystiolaeth honno.

Ar gyfer rhai cymwysterau, nid yw canlyniadau wedi'u cyfrifo yn briodol. Yn gyffredinol, bydd angen asesiadau ar gyfer cymwysterau a ddefnyddir i nodi cymhwysedd galwedigaethol, y rheiny sy'n ymwneud â meddu ar y sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer y swydd, neu a allai fod â goblygiadau proffesiynol neu iechyd a diogelwch. Yn yr achosion hyn, gwnaethom ofyn i gyrff dyfarnu addasu eu hasesiadau, gan ystyried pa addasiadau a oedd yn addas ac yn ymarferol o dan gyfyngiadau iechyd cyhoeddus.

Lle nad oedd yn cael ei ystyried yn briodol cyhoeddi graddau wedi'u cyfrifo o ystyried pwrpas y cymhwyster a'r sgiliau yr oedd angen eu hasesu, ystyriodd cyrff dyfarnu y ffordd orau i addasu'r cymhwyster wrth gynnal dilysrwydd, dibynadwyedd a mynychder y cymhwyster. Roedd rhai o'r agweddau a ystyriwyd gan y cyrff dyfarnu yn cynnwys:

- newid sut y cyflwynwyd yr asesiadau, er enghraifft defnyddio prawf ar-lein yn hytrach na phapur, neu gynnal asesiad o bell yn hytrach nag wyneb yn wyneb;
- newid y dull asesu, er enghraifft defnyddio efelychiad ymarferol yn lle arsylwad, neu drafodaeth broffesiynol yn lle arddangosiad ymarferol;
- newid gofynion goruchwylio, er enghraifft caniatáu defnyddio goruchwylio ar-lein;
- hepgor neu addasu profiad gwaith neu ofynion lleoliad, er enghraifft caniatáu i ymgeiswyr fod wedi ymgymryd â chyfnod byrrach o brofiad gwaith.

Yn anffodus, roedd rhai cymwysterau lle roedd angen oedi cyn yr asesiad. Roedd hyn yn wir lle nad oedd yn bosibl addasu'r asesiad a chynnal dilysrwydd a dibynadwyedd y cymhwyster yr un pryd. Er ein bod am sicrhau bod cynifer o ddysgwyr â phosibl yn derbyn eu canlyniadau yr haf hwn, roedd yna achosion lle byddai gwneud hynny wedi tansailio hyder yn y cymwysterau.

## Cyfathrebu'r ymagwedd

Roedd cyrff dyfarnu yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth i ganolfannau ar yr ymagwedd at bob cymhwyster. Ar gyfer cymwysterau a fyddai'n cael canlyniadau wedi'u cyfrifo, roedd hyn yn cynnwys y dystiolaeth y dylid ei hystyried wrth ddarparu graddau asesu canolfannau a'r broses a'r amserlenni i'w dilyn i gyflwyno'r wybodaeth. Ar gyfer asesiadau wedi'u haddasu, rhoddodd cyrff dyfarnu wybod i ganolfannau sut y dylid gweithredu unrhyw newidiadau i'r asesiadau a gynlluniwyd a'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd.

Cynhyrchodd Ofqual [ganllawiau](#) hefyd ar gyfer canolfannau ar ddyfarnu cymwysterau galwedigaethol yn haf 2020 y gwnaethom eu cyfeirio i sylw canolfannau yng Nghymru.

[Ein hymagwedd at gymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant a chymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru](#)

Dim ond Cymwysterau Cymru sy'n rheoleiddio'r gyfres o gymwysterau newydd i Gymru yn unig mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant. Buom yn gweithio gyda CBAC, City & Guilds, Gofal Cymdeithasol Cymru (SCW) ac Addysg a Gwella lechyd Cymru (HEIW) i ddod o hyd i atebion ar gyfer haf 2020 a oedd yn lleihau'r effaith ar ddysgwyr ond hefyd yn gwarchod dilysrwydd y cymwysterau.

Mae yna ystod o gymwysterau ar gael yn y gyfres, gyda gwahanol ddibenion a llwybrau dilyniant yn gysylltiedig â nhw. Mae gan y cymwysterau hyn hefyd amrywiaeth o ddulliau asesu, y mae rhai ohonynt yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth o theori, tra mae rhai eraill yn cadarnhau cymhwysedd ymarferol. Nid oedd un ymagwedd unigol y gellid ei chymhwyso ar draws y gyfres o gymwysterau, felly fe wnaethom ddatblygu gwahanol atebion ar gyfer y gwahanol gymwysterau. Roedd yn hanfodol ein bod wedi gweithio'n agos gyda'r cyrff yn y sector i sicrhau ein bod yn cael eu cefnogaeth i unrhyw addasiadau a wnaed i'r asesiadau ac y byddai'r cymwysterau'n parhau i fod â'r un gwerth yn y gweithle. Gwnaethom hefyd wrando ar farn staff canolfannau oedd yn ymwneud â darparu'r cymwysterau.

Cyfrifo – rhoddir canlyniadau wedi'u cyfrifo i ddysgwyr ar gymhwyster yn seiliedig ar wybodaeth, Lefel 2 lechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau.

Addasu – addaswyd asesiadau yn y cymwysterau Craidd, er mwyn galluogi dysgwyr a oedd wedi cwblhau asesiad digonol cyn 20 Mawrth i gael canlyniadau yr haf hwn.

Oedi – yn anffodus, lle nad oedd dysgwyr wedi cwblhau asesiad digonol ar gyfer cymwysterau Craidd neu ar gyfer cymwysterau yn seiliedig ar ymarfer sy'n gofyn am asesu sgiliau ymarferol yn y gweithle, gohiriwyd yr asesiadau.

Cyhoeddwyd ein [hymagwedd](#) tuag at y cymwysterau hyn ar 24 Ebrill.

Gwnaethom hefyd nodi ein [hymagwedd](#) at y gyfres o gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ar 20 Ebrill 2020. Roedd yr ymagwedd hon yn galluogi dysgwyr a oedd i fod i gwblhau eu cymwysterau cyn 31 Gorffennaf 2020 i dderbyn gradd wedi'i chyfrifo.



## Sut wnaethon ni gyfathrebu

Mae ein rôl hefyd wedi cynnwys rhannu'r naratif o gwmpas ein gwaith a dod â rhanddeiliaid ar y daith gyda ni. I helpu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl, gwnaethom ddatblygu tudalennau gwe pwrpasol am [COVID-19](#) a'u cadw'n gyfoes trwy gydol y cyfnod. Roedd y wybodaeth a gyhoeddwyd yn cynnwys:

- blogiau;
- cynnwys fideo;
- llythyrau a gwybodaeth i ganolfannau;
- datganiadau Cymwysterau Cymru;
- datganiadau Ofqual; a
- chwestiynau cyffredin.

Gwnaethom hefyd ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth, a welodd gynnydd o 2,100% mewn ymgysylltiad ar draws Twitter a Facebook rhwng mis Mawrth a mis Mehefin. Roedd ein cylchlythyrau misol hefyd yn rhoi gwybod i randdeiliaid am bob datblygiad parhaus. Ymatebodd ein tîm cysylltiadau allanol i ymholiadau gan ddysgwyr, rhieni, ysgolion a cholegau a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

Gwnaethom gyfarfod â grwpiau cynrychioliadol o GolegauCymru a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru i drafod eu pryderon a'r effaith ar gyflawni eu gwaith. Rhanddeiliaid eraill y buom yn ymgysylltu â nhw oedd Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu (FAB), y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) a rheoleiddwyr cymwysterau eraill - Ofqual (Lloegr), CCEA Regulation (Gogledd Iwerddon) ac SQA Accreditation (Yr Alban). Buom hefyd yn cadeirio cyfarfodydd Cyfathrebu ac Ymgysylltu wythnosol gyda LIC, a chyfarfod yn rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru i rannu gwybodaeth a hysbysrwydd. Rhoddwyd gwybod i'r cyfryngau darlledu ac argraffu am yr holl ddatblygiadau a chynhaliwyd sesiynau briffio rheolaidd dros y ffôn.

## Monitro haf 2020

Roedd Cymwysterau Cymru yn rhan o Fwrdd Goruchwyllo Cymwysterau Galwedigaethol ar gyfer haf 2020, a gynullwyd gan Ofqual, a oedd yn cyfarfod yn rheolaidd trwy gydol yr haf i ystyried cynnydd a phroblemau. Roedd y Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o gyrff dyfarnu galwedigaethol allweddol, y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ), Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu (FAB) a rheoleiddwyr y DU.

Gan weithio gyda'n cyd-reoleiddwyr, gwnaethom gynnal cyfarfodydd adolygu gyda chyrff dyfarnu galwedigaethol allweddol i ddeall sut roeddent yn gweithredu'r fframwaith rheoleiddio arbennig ac i geisio sicrwydd ynghylch sut yr oeddent yn rheoli risgiau a allai effeithio ar gyflawni canlyniadau'r haf hwn.

Roedd yn ofynnol i bob corff dyfarnu gyflwyno gwybodaeth am eu categorieiddio a'u camau lliniaru i'r rheoleiddwyr. Gwnaethom gyhoeddi [rhestr](#) o'r holl gymwysterau a oedd o fewn cwmplas y fframwaith a'r prif gamau lliniaru cysylltiedig. Hefyd, datblygodd Ofqual [offeryn ar-lein](#) i ddysgwyr a chanolfannau allu chwilio am gymwysterau unigol, gan gynnwys yr holl gymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru. Roedd yn ofynnol i gyrff dyfarnu hysbysu'r rheoleiddwyr am unrhyw newidiadau i gategorïau cymwysterau neu gamau lliniaru os nad oeddent yn gallu cydymffurfio ag unrhyw agwedd ar y fframwaith.

Ar gyfer cymwysterau a reoleiddir ar draws y tair gwlad, cymerodd Ofqual yr awenau ynghylch monitro cynnydd cyrff dyfarnu wrth brosesu eu data GAC yn barod ar gyfer cyhoeddi canlyniadau. Gwnaethom fonitro'r cynnydd ar gyfer cymwysterau Cymru yn unig fel Sgiliau Hanfodol Cymru a chymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant. Gofynnwyd i gyrff dyfarnu ein diweddarau ynghylch y cynnydd o ran casglu a phrosesu GACau a gofynnwyd am sicrwydd y byddai'r canlyniadau'n cael eu cyhoeddi yn brydlon.

Roeddem hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu ein hysbysu trwy ein proses hysbysu digwyddiadau bresennol os oeddent yn debygol o fethu â chydymffurfio â gofynion rheoliadol haf 2020 mewn unrhyw ffordd, gan gynnwys os byddent yn methu â chyhoeddi canlyniadau.

## Canlyniadau

Mae ein Fframwaith Rheoleiddio Arbennig yn nodi'r ymagwedd y mae'n rhaid i gyrff dyfarnu ei dilyn wrth gyhoeddi canlyniadau wedi'u cyfrifo yr haf hwn. O ystyried yr amrywiaeth o strwythurau cymwysterau a dulliau asesu mewn cymwysterau galwedigaethol, nid oes unrhyw fodel safoni ystadegol trosfwaol sy'n cael ei ddefnyddio fel sy'n wir am gymwysterau cyffredinol. Mae'r fframwaith rydym wedi'i roi ar waith yn caniatáu i gyrff dyfarnu ddatblygu ymagwedd sy'n gweithio orau ar gyfer pob cymhwyster maen nhw'n ei gynnig, gan ddibynnu ar y mathau o dystiolaeth sydd ar gael i gyfrifo graddau. Mae hyn yn golygu y gallai'r ffordd y mae canlyniad wedi'i gyfrifo ar gyfer un cymhwyster fod yn wahanol i'r ffordd y cafodd ei gyfrifo ar gyfer un arall.

Wrth gyfrifo'r canlyniadau yr haf hwn, bydd cyrff dyfarnu wedi:

- casglu tystiolaeth fel canlyniadau asesu a fanciwyd yn flaenorol, graddau asesu canolfannau, canlyniadau ysgol neu goleg o'r blynyddoedd diwethaf;
- sicrhau ansawdd y dystiolaeth y dibynnir arni;
- sicrhau nad yw'r canlyniadau yn wahanol i'r disgwyliadau.

Yn ychwanegol at y dystiolaeth y gofynnwyd amdani ar gyfer y GAC gan y canolfannau, bydd cyrff dyfarnu wedi defnyddio tystiolaeth berthnasol sydd ganddynt eisoes i gefnogi'r broses ar gyfer gyfrifo graddau.

Gall hyn gynnwys:

- Marciau neu raddau wedi'u bancio ar gyfer asesiad uned wedi'i gwblhau ar gyfer asesiadau allanol a mewnol;
- Data o gyfresi blaenorol am y berthynas rhwng perfformiad ar yr unedau hynny sydd wedi'u bancio a pherfformiad ar unedau y byddai dysgwyr wedi'u cymryd yn haf 2020;
- Perfformiad a chofnodion canolfannau hanesyddol; a
- Data cyrhaeddiad blaenorol ar y garfan o ddysgwyr, lle maent ar gael.

Mewn rhai achosion, bydd yr ymagwedd a gymerir gan gyrff dyfarnu sydd hefyd yn cynnig cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yr un fath â'r ymagwedd a ddefnyddir yn y cymwysterau hynny. Mae hyn yn debygol o fod yn wir mewn cymwysterau sy'n arwain at symud ymlaen i Addysg Bellach neu Addysg Uwch ac yn cynnwys asesiadau allanol sy'n seiliedig ar gyfresi, yn yr un modd ag ar gyfer cymwysterau cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys llawer o gymwysterau a gymerir mewn cymwysterau cyn-16 mewn ysgolion a lefel 3 a ddefnyddir ar gyfer symud ymlaen i addysg uwch.

Cyhoeddir canlyniadau ar gyfer mwyafrif y cymwysterau galwedigaethol sy'n seiliedig ar gyfresi ar yr un diwrnod â'r cymhwyster cyffredinol cyfatebol yn haf 2020. Cyhoeddir canlyniadau cymwysterau galwedigaethol Lefel 3 ar 13 Awst, ochr yn ochr â Safon Uwch ac UG. Cyhoeddir canlyniadau cymwysterau galwedigaethol Lefel 1 a 2 ar 20 Awst, ochr yn ochr â chanlyniadau TGAU. Fodd bynnag, gall rhai cymwysterau nad oes ganddynt fel arfer ddyddiau canlyniadau penodol gyhoeddi canlyniadau cyn y dyddiadau hynny.

Dylai dysgwyr, rhieni, ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac uwch a chyflogwyr i gyd fod â hyder yn y cymwysterau a enillir gan ddysgwyr yr haf hwn.

## Apeliadau

Bydd canolfannau'n gallu apelio yn erbyn canlyniadau lle maen nhw'n teimlo nad oedd y corff dyfarnu wedi cymhwyso gweithdrefnau yn gyson neu na chafodd y gweithdrefnau eu dilyn yn iawn ac yn deg. O ystyried yr ystod o gymwysterau galwedigaethol a phrosesau apelio cysylltiedig ar draws cyrff dyfarnu, nid ydym wedi rhagnodi ymagwedd y mae'n rhaid i gyrff dyfarnu ei chymryd.

Nid yw'n ofynnol i gyrff dyfarnu dderbyn apeliadau a gyflwynir gan ddysgwyr unigol neu eu cynrychiolwyr oni bai mai dyna'r unig ffordd i sicrhau apêl effeithiol. Ni chaniateir apeliadau sy'n ymwneud â dyfarniadau proffesiynol athrawon mewn perthynas â graddau a gyfrifir, cyhyd â bod y dyfarniadau hynny'n cael eu llunio yn unol â'r weithdrefn a nodwyd gan y corff dyfarnu. Os yw dysgwr yn pryderu y bu gogwydd neu wahaniaethu o ran sut mae'r ganolfan wedi dilyn y broses, dylent gyflwyno cwyn i'r ysgol, coleg neu ddarparwr hyfforddiant yn y lle cyntaf. Lle mae gan y dysgwr dystiolaeth gredadwy nad oedd graddau wedi'u seilio ar ddyfarniadau gwrthrychol, gan arwain at ragfarn neu wahaniaethu, gallant gysylltu â'r corff dyfarnu. Gall dysgwyr sydd â phryderon o'r fath hefyd godi'r rhain gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC).

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, os yw apelydd yn anfodlon â sut mae'r corff dyfarnu wedi delio â'r apêl, gall gyflwyno cwyn i Gymwysterau Cymru.

## Beth nesaf - ymagwedd at 2020/2021

Wrth iddi ddod yn amlwg y byddai COVID-19 yn parhau i gael effaith ar addysg ac asesu yn y flwyddyn academaidd nesaf, dechreuon ni edrych ar ba addasiadau i gymwysterau y gallai fod angen eu gwneud i leihau'r effaith ar ganolfannau a dysgwyr.

Rydym yn gwybod y bydd tarfu ar ddysgu dysgwyr sydd newydd gwblhau blwyddyn gyntaf cwrs dwy flynedd yn ystod haf 2020, a bod angen i ni ystyried sut i leihau'r effaith barhaus i haf 2021. Rydym hefyd yn gwybod y gallai fod aflonyddwch pellach i addysgu ac asesu yn y flwyddyn i ddod ac y gallai rhai mathau o asesu mewn rhai cymwysterau galwedigaethol fod yn fwy heriol i ganolfannau eu cyflawni os oes cyfyngiadau cloi neu gyfyngiadau iechyd cyhoeddus pellach ar waith.

Rydym yn bwriadu rhoi fframwaith rheoleiddio eithriadol estynedig ar waith ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a chanllawiau i gyrff dyfarnu a fydd yn eu galluogi i addasu eu cymwysterau yn 2020/21. Bydd unrhyw newidiadau a wneir yn ceisio gwneud yr asesiadau mor hawdd eu trin â phosibl, yn sicrhau cysondeb rhwng ymagweddau y mae cyrff dyfarnu yn eu cymryd at gymwysterau tebyg ac yn sicrhau na ddylai newidiadau roi anfantais na mantais i ddysgwyr galwedigaethol yn erbyn eu cyfoedion sy'n cymryd cymwysterau cyffredinol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i unrhyw newidiadau beidio â thanseilio dilysrwydd a dibynadwyedd y cymwysterau.